

Ysgol I.D. Hooson  
Heol Caradog  
Rhosllannerchrugog  
LL14 2DX  
Ffôn: 01978 832950  
Ffacs: 01978 832955  
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



## YSGOL I.D. HOOSON

Gorffennaf 16eg, 2019

### PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

**Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, hoffwn dynnu eich sylw tuag at rhai pethau pwysig cyn i ni gau am wyliau'r haf.**

**Presenoldeb a Gwyliau** - Fel yr hysbysir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, mae presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn allweddol tuag at lwyddiant academaidd eich plentyn. Rydym angen i'ch plentyn fod yn yr ysgol ar gyfer pob diwrnod posib yn ystod y flwyddyn, oni bai fod rheswm dilys am absenoldeb e.e. salwch, apwyntiad meddygol. Wrth i ni agosáu at y gwyliau, hoffwn eich annog unwaith eto os gwelwch yn dda i feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu eich gwyliau gyfer y flwyddyn 19-20, a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais trwy lythyr os am gymryd eich plentyn o'r ysgol am wyliau neu ymweliad eraill sydd ddim yn gysylltiedig ag addysg eich plentyn. Gweler taflen dyddiadau tymhorau ysgol 19-20.

**Cylch Meithrin** - Cofiwch fod Cylch Maes y Gornel yn rhedeg o fewn prif adeilad yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yma ar gael i blant oed 2+. Cysylltwch a'r ysgol am wybodaeth bellach.

**Ffair Haf** - Roedd ein ffair haf diweddar yn un lwyddiannus iawn. Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a fu'n gyfrifol am drefnu'r ffair ac i bawb a fu'n cynorthwyo ar y noson. Cafodd dros £600 i'w godi yn y ffair. Mi fydd yr arian a godwyd yn mynd tuag at adnoddau i'r disgyblion, gan gynnwys offer TGCh ac adnoddau darllen.

**Arian sydd yn ddyledus** - Gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gan ddyledion i'w talu i'r ysgol e.e. arian cinio a chlwb ar ôl ysgol i wneud hyn cyn diwedd y tymor. Ni fydd yn bosib cynnig cinio ysgol na lle yn y clwb ar ôl ysgol ym mis Medi hyd nes y bydd unrhyw ddyledion wedi'i talu. Os ydych yn ansicr, yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol. Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad prydlon gyda'r mater pwysig hwn.  
**Pris cinio ysgol yn mis Medi fydd £2.35 i ddisgyblion Derby'n i flwyddyn 2, ac yna £2.40 i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6.**

#### **Gwisg ysgol**

Rydym ar drothwy gwyliau'r haf. Hoffwn eich atgoffa o drefniant gwisg ysgol o Fedi 2019 ymlaen. Yn unol â'r polisi gwisg ysgol, bydd y wisg ysgol bresennol yn parhau sef trowsus glas/sgert las, crys polo a chrys chwys glas neu gardigan yr ysgol. Gofynnir i **bob** plentyn wisgo esgidiau du i'r ysgol. Ni chaniateir trainers du sydd wedi'i labelu gan wneuthurwyr megis Nike, Adidas ayyb, ac ni chaniateir esgidiau sodlau uchel /high heels. Mae felly digon o amser dros yr haf i chi baratoï ar gyfer trefnu gwisg ysgol ac esgidiau ysgol eich plentyn. Hefyd mae disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol, sef crys polo/ T glas a siorts glas. Dylid labelu pob dilledyn gydag enw'r plentyn. Mae gwisg ysgol ar gael drwy gwmni RAM.



Yn olaf, hoffwn ddymuno yn dda i'r plant ac i chi fel rhieni a gofalwyr dros wyliau'r haf. Dymunwn yn dda i Mrs Miriam Jones fydd ar gyfnod mamolaeth y flwyddyn nesaf, ac i Miss Bethan Morris wrth iddi ymgymryd â chyfnod secondiad yn cydgyssylltu gweithgareddau Siarter Iaith Sir Fflint a Wrecsam. Dymunwn yn dda hefyd wrth gwrs i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn ein gadael i gychwyn ar fywyd yn yr ysgol Uwchradd. Diolch iddynt am ei gwaith caled yn ystod eu cyfnod yn Ysgol I D Hooson, a phob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr ysgol yn cau ar **ddydd Gwener Gorffennaf y 19eg**, ac yn ail agor i'r plant ar **ddydd Mercher, Medi 4ydd** (Bydd Medi'r 2ail a'r 3ydd yn ddiwrnodiau hyfforddiant i'r athrawon). Edrychwn ymlaen felly at fis Medi, ac at gychwyn blwyddyn ysgol newydd a phrysur arall !

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad gyda'r materion uchod a phob hwyl i chi gyd dros yr haf.

Yn gywir,

*Mr Rhodri Jones*  
Pennaeth